

# Therapydd Galwedigaethol

**G06 £36,648 - £39,186**

**Tŷ Dewi Sant, a gweithio ar draws y Sir**

**Parhaol, 37 awr yr wythnos**

*Ydych chi'n dymuno gwneud gwahaniaeth i unigolion a'u gofalwyr?*

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer Therapydd Galwedigaethol cymwys i ymuno â'n gwasanaeth, sy'n gweithio i gefnogi oedolion yn eu cartrefi eu hunain ledled Sir y Fflint.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd arfer dull sy'n cael ei arwain gan ddinasyddion, sy'n canolbwyntio ar gryfderau wrth gynnal asesiadau cydweithredol gyda phobl i bennu eu canlyniadau, dadansoddi eu galluoedd ymarferol, eu hamgylchedd a'u galwedigaethau arwyddocaol cyn gwneud argymhellion a chynnal ymyriadau.

Mae dealltwriaeth ymarferol am y model cymdeithasol o anabledd yn hollbwysig. Mae ymwybyddiaeth am ddarpariaeth offer ac addasiadau mân a mawr hefyd o fantais. Bydd gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio sawl dull a thechnegau gwahanol yn helpu'r ymgeisydd gynyddu annibyniaeth a lles y rhai sydd â chyflyrau corfforol cymhleth a chyflyrau cysylltiedig eraill.

Byddai dealltwriaeth dda a phrofiad o godi a symud yn gorfforol a'r ddeddfwriaeth berthnasol yn amhrisiadwy ar gyfer y swydd hon. Mae angen sgiliau cyfathrebu ardderchog i weithio gydag aelodau tîm amlddisgyblaethol, dinasyddion a'u teuluoedd yn ogystal ag asiantaethau eraill sy'n ein cefnogi. Mae sgiliau cofnodi a chyfrifiadur ardderchog hefyd yn angenrheidiol.

Mae strwythur da o arolygiaeth a chefnogaeth ar gael ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus, yn unol â chanllawiau Fframwaith Gyrfa Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol.

Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.

Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fod wedi cofrestru â HCPC ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad sylweddol gydag oedolion a/neu blant diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â:

Sian Jones, Rheolwr Tîm ar 01352 701374 neu Paula Curtis, Rheolwr Tîm Therapi Galwedigaethol, Ailalluogi a Teleofal, ar 01352 701494.

Bydd trefniadau gweithio rhan-amser, rhannu swydd a threfniadau gweithio hyblyg yn cael eu hystyried.